

## **Asesiad Risg ar gyfer Gorsafoedd Petrol**

### **1 Cyflwyniad**

Ers cyflwyno Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol 2002, mae'r amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau petrol a roddir dan Ddeddf Petrolewm (Cydgrynhoi) 1928 wedi'u lleihau'n sylweddol.

Mae'r baich bellach ar y cyflogwyr/person sy'n gyfrifol i adnabod ac asesu'r risg sy'n codi o gyflenwi, cadw a dosbarthu gwirod petrolewm a thanwyddau modur eraill (megis nwy petrolewm hylifedig - LPG).

### **2 Deddfau Perthynol**

- Deddf Petrolewm (Cydgrynhoi) 1928
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol 2002
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

### **3 Beth yw Gofynion y Ddeddfwriaeth**

Mae'n rhaid i'r cyflogwr/person sy'n gyfrifol:

- Ddarganfod pa sylweddau peryglus sy'n bresennol yn eu gweithle/safle a beth yw'r risgiau tân a ffrwydradau. (Mae gwirod petrolewm a LPG ill dau yn "sylweddau peryglus" i'r diben hwn, ond gall fod rhai eraill ar y safle. Os felly, dylai'r rhain gael eu hystyried yn ogystal).
- Rhoi mesurau rheoli ar waith un ai i ddiddymu'r risgiau hyn, neu pan nad yw hyn yn bosibl, i'w rheoli.
- Rhoi rheolaethau ar waith i leihau effeithiau unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â sylweddau peryglus.
- Paratoi cynlluniau a gweithdrefnau i ddelio â damweiniau, digwyddiadau a digwyddiadau brys sy'n ymwneud â sylweddau peryglus.

- Sicrhau bod gweithwyr wedi'u hysbysu'n briodol a'u bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol i reoli neu i ddelio â risgiau'r sylweddau peryglus. (Mae hyn yn cynnwys eu darparu â manylion y sylweddau a chopi o gasgliadau arwyddocaol yr asesiad risg).
- Canfyddwch a dosbarthwch ardaloedd o'r gweithle/safle ble y gall atmosfferau ffrwydrol ddigwydd ac osgowch darddiadau tanio (er enghraifft o offer diamddiffyn) yn yr ardaloedd hynny. Cynllun yw'r ffordd orau o gofnodi'r ardaloedd hyn - gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion.
- Cwblhewch asesiad risg a chofnodwch y casgliadau arwyddocaol o'r asesiad hwnnw, gan gynnwys mesuriadau sydd wedi, neu a fydd yn cael eu cymryd gan y cyflogwr/person sy'n gyfrifol er mwyn rheoli'r risg.
- Cadwch gofnod o'r asesiad risg a'r casgliadau arwyddocaol yn barod ar gyfer archwiliad.
- Adolygwch yr asesiad risg yn gyfnodol ac wedi unrhyw newidiadau sylweddol.

Ni ddylai'r gofyniad i asesu'r risg o'r sylweddau peryglus gael ei ystyried ar ei ben ei hun. Dylid ei weithredu yn rhan o'r asesiad risg cyflawn sy'n ofynnol drwy Reoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn hytrach na thrwy ymarfer ar wahân.

Mae Atodiad 1, sydd wedi'i atodi, yn fformat awgrymedig. Efallai y byddech yn dymuno'i ystyried yn ddull o gofnodi'r wybodaeth ofynnol.

Mae Atodiad 2 yn rhestru rhai o'r mesurau rheoli a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer pob gweithgaredd.

Mae Atodiad 3 yn rhoi manylion y parthau peryglus sy'n gysylltiedig â blaengwrt gorsaf betrol.

Nid dilyn y canllaw hwn yw'r unig ffordd o gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Er hyn, mae'r cyngor yn dangos arfer gorau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o'r Tîm Iechyd a Diogelwch ar 01437 775632.

Asesiad Risg Gorsaf Petrol ar gyfer .....

GWEITHGAREDD	RISG/PERYGL SY'N YMWNEUD Â GWEITHGAREDD	MESURAU RHEOLI SY'N BODOLI EISOES		DARGANFYDDIADAU ARWYDDOCAOL (h.y. a yw'r risg yn cael ei reoli'n ddigonol?)		UNRHYW WEITHREDOEDD SYDD EU HANGEN (GAN BWY) (ERBYN PRYD)
		PEIRIANYDDOL	RHEOLEDIG	OES	NAC OES	
<b>Dadlwytho Tancer</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gorlenwi/croesi</li> <li>• Trawiad</li> <li>• Gweithredoedd gan bersonél anawdurdodedig</li> <li>• Arllwys damweiniol Rhyddhau anwedd yn afreolus</li> <li>• Tân/ffrwydrad wedi'i achosi gan danio anwedd yn dilyn rhyddhau'r cynnyrch yn afreolus</li> <li>• Gollyngiad</li> <li>• Tarddiadau tanio</li> </ul>	3A:	4A:			
<b>Storio tanwydd ar y safle</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gollyngiad</li> <li>• Rhyddhau anwedd yn afreolus</li> <li>• Tân/ffrwydrad wedi'i achosi gan danio anwedd yn dilyn rhyddhau'r cynnyrch yn afreolus</li> </ul>	3B:	4B:			
<b>Dosbarthu tanwydd gan y cyhoedd</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gollyngiad</li> <li>• Arllwys damweiniol</li> <li>• Tân/ffrwydrad wedi'i achosi gan danio anwedd yn dilyn rhyddhau'r cynnyrch yn afreolus</li> <li>• Trawiad cerbydol</li> <li>• Methiant offer</li> </ul>	3C:	4C:			

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tarddiadau tanio</li> <li>• Aelodau o'r cyhoedd</li> </ul>					
<b>GWEITHGAREDD</b>	<b>RISG/PERYGL SY'N YMWNEUD Â GWEITHGAREDD</b>	<b>MESURAU RHEOLI SY'N BODOLI EISOES</b>		<b>DARGANFYDDIADAU ARWYDDOCAOL (h.y. a yw'r risg yn cael ei reoli'n ddigonol?)</b>		<b>UNRHYW WEITHREDOEDD SYDD EU HANGEN (GAN BWY) (ERBYN PRYD)</b>
		<b>PEIRIANYDDOL</b>	<b>RHEOLEDIG</b>	<b>OES</b>	<b>NAC OES</b>	
<b>Cynnal atgyweiriad, cynnal a chadw neu addasiad</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tanio</li> <li>• Gollyngiad</li> <li>• Arllwys yn ddamweiniol</li> <li>• Personél anawdurdodedig</li> <li>• Rhyddhau anwedd</li> <li>• Tân/ffrwydrad wedi'i achosi gan danio anwedd yn dilyn rhyddhau'r cynnyrch yn afreolus</li> <li>• Trawiadau</li> </ul>	3D:	4D:			
<b>Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005:</b> Ystyried staff a'r cyhoedd o fewn safle cysylltiol (neu'r rheini a allai gael eu heffeithio gan dân ar y safle)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tân/ffrwydrad wedi'i achosi gan danio anwedd yn dilyn rhyddhau'r cynnyrch yn afreolus</li> <li>• Tân wedi'i achosi drwy danio deunyddiau hylosg</li> </ul>	3E:	4E:			

Wedi'i gynnal gan: .....

Dyddiad: .....

Adolygiad yn ddyledus erbyn: .....

## Rhestr o Fesurau Rheoli Posibl i'w Cynnwys o fewn Celloedd ar y Ffurflen Asesu Risg

PEIRIANYDDOL	RHEOLEDIG
<p><b>Cell 3A</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Atal gorlenwi/larwm lefel uchel</li> <li>2. Labelu pwyntiau llenwi/arwyddion yn gywir</li> <li>3. Adfer anwedd Cam 1b</li> <li>4. Lleoliad pibell awyrell</li> <li>5. Lleoliad/gwarchod y pibellau llenwi (stand tancer)</li> <li>6. Arwyneb anhydraidd i'r stand tancer</li> <li>7. Draeniad y stand tancer/pwynt llenwi'r tanc i system ddargadwedd (rhyng-gipiwr)</li> <li>8. Offer dosbarthu a reolir gan y gyrrwr</li> <li>9. Golau digonol</li> <li>10. Dosbarthiad ardal beryglus/addasrwydd offer</li> <li>11. Darpariaeth offer ymladd tân a deunydd amsugol</li> </ol>	<p><b>Cell 4A</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cyfundrefn archwilio/cynnal a chadw</li> <li>2. Hyfforddi staff</li> <li>3. Dogfennaeth dosbarthu</li> <li>4. Darpariaeth Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)</li> <li>5. Gweithdrefnau Brys</li> </ol>
<p><b>Cell 3B</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cynhwysdanc eilaidd</li> <li>2. System canfod gollyngiad</li> <li>3. Ffynhonnau arsylwi/monitro</li> <li>4. Adfer anwedd Cam 1b</li> <li>5. Systemau medryddion</li> <li>6. System cysoniad awtomataidd</li> <li>7. Diogelwch catodig</li> <li>8. Darpariaeth offer ymladd tân a deunydd amsugol</li> </ol>	<p><b>Cell 4B</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Hyfforddi staff</li> <li>2. Rhestr cysoniad ystadegol trydydd parti</li> <li>3. Cysoniad stoc wlyb</li> <li>4. Cyfundrefn a chofnodion archwiliad/cynnal a chadw</li> <li>5. Darpariaeth Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)</li> </ol>

**Cell 3C**

1. Dosbarthwyr/pympiau i safon wedi'i chymeradwyo
2. Labelu/arwyddion
3. Golau digonol
4. Lleoliad y dosbarthwyr/pympiau (golwg/effaith)
5. Switshis arwahanu/brys
6. Diogelu'r peiriannau dosbarthu/pympiau rhag trawiadau
7. Falfiau o dan y pwmp
8. System uchel seinydd
9. Arwynebedd blaengwrt anhydraidd
10. Draenio'r ardal ddosbarthu i system ddargadwedd
11. Offer trydanol sy'n addas ar gyfer parth peryglus
12. Darpariaeth offer ymladd tân a deunydd amsugol

**Cell 4C**

1. Hyfforddi staff
2. Cyfundrefn archwilio/cynnal a chadw
3. Darpariaeth cyfarpar diogelu personol i staff
4. Darpariaeth offer a hyfforddiant cymorth cyntaf
5. Gweithdrefnau brys

**Cell 3D**

1. Yr offer cywir i gael eu defnyddio mewn ardaloedd peryglus
2. Darpariaeth offer codi addas ar gyfer cael mynediad at orchuddion y siambrau
3. Darpariaeth offer ymladd tân a deunydd amsugol
4. Darpariaeth conau a rhwystrau
5. Yr ardal weithio wedi'i goleuo'n ddigonol

**Cell 4D**

1. Contractwyr cymwys/pasbort diogelwch
2. Hyfforddi staff
3. Darpariaeth cyfarpar diogelu personol
4. Cynllun brys
5. Dogfennaeth contractwyr:
  - tystysgrifau clirio
  - datganiad dull
  - asesiad risg
6. Llyfr ymwelwyr

**Cell 3E (Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005)**

1. Moddau addas a digonol o ddianc
2. Darpariaeth addas a digonol o offer ymladd tân
3. Larymau a datgelu tân
4. Arwahaniad gwrthsefyll tân

**Cell 4E (Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005)**

1. Hyfforddi staff
2. Cynnal a chadw offer ymladd tân/larymau etc.
3. Cynllun brys
4. Asesiad risg
5. Person cymwysedig

## Parthau peryglus

Diffiniadau o barthau peryglus:

**Parth 0** – Rhan o'r ardal beryglus ble y mae awyrgylch fflamadwy yn bresennol o hyd, neu'n bresennol am gyfnodau hir o amser.

**Parth 1** – Rhan o'r ardal beryglus ble y mae awyrgylch fflamadwy yn debygol o ddigwydd wrth weithredu mewn modd arferol.

**Parth 2** – Rhan o'r ardal beryglus ble nad yw awyrgylch fflamadwy yn debygol o ddigwydd wrth weithredu mewn modd arferol, ac os yw'n digwydd, dim ond am gyfnod byr y bydd yn bodoli.

Ardaloedd wedi'u henwi o'r parthau peryglus i'w nodi ar lun y parthau peryglus:

**Parth 0:** (Marciwch yn goch ar gynllun y safle)

- O fewn unrhyw siambr mynediad neu bwll ble mae yno bwyntiau cysylltu pibellau dosbarthu tancer.
- O fewn gwahanydd olew (rhyngdorrwr petrol).

**Parth 1:** (Marciwch yn las ar gynllun y safle)

- Radiws o 1m o amgylch cysylltiadau i bibellau dosbarthu'r tancer a'r pibellau dychwelyd anwedd sy'n ymestyn at lefel y ddaear.
- Radiws o 1m ar hyd llwybr y bibell ddosbarthu o bwyntiau cysylltu'r tancer i bwyntiau cysylltu'r tanc.
- Radiws o 1m o'r pwynt llenwi tanc (uwchben y ddaear).
- Radiws 1m o ymyl y siambr os yw'r pwynt llenwi o dan y ddaear.
- O fewn siambrau mynediad tanciau petrol nad oes ganddynt bwyntiau llenwi tanc.
- Radiws o 2m o amgylch pwyntiau awyrellu'r tanc sydd heb system adfer anwedd cam 1b.
- Radiws o 1m o amgylch pwynt awyrellu gwahanydd olew (rhyngdorrwr petrol).
- O fewn siambr mynediad gwahanydd olew (rhyngdorrwr petrol).
- O fewn radiws o 4.1 o gyswllt pibell dosbarthu petrol ar beiriant dosbarthu (heb ddull adfer anwedd cam 2).



**Parth 2:** (Marsiwch yn felyn ar gynllun y safle)

- Radiws o 4m o bwyntiau cyswllt pibell ddosbarthu'r tanc.
- Radiws o 4m o gysylltiadau llenwi offset uwchben y ddaear.
- Radiws o 1m o amgylch pwynt cyswllt pibell ddychwelyd anwedd.
- Radiws o 2m o amgylch pwyntiau awyrellu'r tanc ble mae gan y safle ddull adennill anwedd Cam 1b wedi'i fewnosod.
- Radiws o 2m o ymyl gwahanydd olew (rhyngdorwr petrol).
- O fewn radiws o 4.1 o gyswllt pibell ddosbarthu ar beiriant dosbarthu (gyda dull adennill anwedd Cam 1b ar waith).

**LPG (Autogas) uwchben y ddaear**

**Parth 0:**

- O fewn y tanc storio (os na ddefnyddir llwyrllanbau nitrogen).

**Parth 1:**

- Radiws o 1.5m o amgylch pwynt llenwi'r tanc.
- Radiws o 1.5m o amgylch dangosydd lefel gwagle'r tanc.
- O fewn casin y dosbarthydd.
- Radiws 1.5m o ddangosydd lefel gwagle'r tancer.

**Parth 2:**

- Radiws o 0.5m o amgylch falf ollwng tanc sedd feddal.
- Radiws o 2.5m o amgylch unrhyw fath arall o falf ollwng tanc.
- Radiws o 1.2m o amgylch y bibell ddosbarthu.
- Radiws o 1m o amgylch agorfa'r dosbarthu.
- 0.15m o amgylch y peiriant dosbarthu.
- Radiws o 4m o amgylch pwmp y tancer.
- Radiws o 1.5m o amgylch pwynt cyswllt pibell ddosbarthu.
- Radiws o 0.5m o amgylch falf ollwng sedd feddal ar dancer ffordd.
- Radiws o 2.5m o amgylch unrhyw fath arall o falf ollwng tancer ffordd.